

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd)

Blackwood and Caerphilly Laser
Clinic at Studio 28

Dyddiad yr arolygiad: 17 Ionawr
2018

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ebrill 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	18
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	22
	Atodiad B – Cynllun gwella	23

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Blackwood and Caerphilly Laser Clinic at Studio 28 ar 17 Ionawr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom er bod y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu triniaeth mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, roedd tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparwyd gwybodaeth fanwl i gleifion i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth
- Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat
- Roedd yr ystafell driniaeth yn lân ac yn daclus
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben
- Creu a diweddarau rhai polisiâu a gweithdrefnau
- Egluro'r gofynion gwasanaethu o ran y peiriannau laser a golau pwls dwys
- Dylai gweithiwr meddygol proffesiynol greu protocolau meddygol a'u llofnodi
- Creu rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd.

Gwnaethom nodi nifer o faterion sylweddol yn ystod yr arolygiad hwn lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'r rhain yn faterion difrifol sydd wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Cyflwynwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r canlynol:

- Trefniadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw offer diogelwch tân, sef diffoddwyr tân

- Trefniadau ar gyfer cefnogaeth ymgynghorydd diogelu rhag laserau ac adolygiad o'r rheolau lleol ac asesiad risg.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, roedd AGIC wedi derbyn sicrwydd digonol o'r camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol ar gyfer diffyg cydymffurfio.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Blackwood and Caerphilly Laser Clinic at Studio 28 wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol gan ei fod yn darparu triniaethau golau pwls dwys a Dosbarth 3B/4 yn 20 Maindee Road, Cwmfelinfach, Coed-duon, NP11 7HQ.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 3 Awst 2016.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm staff sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig ac un gweithredwr laser/golau pwls dwys arall.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddefnyddio golau pwls dwys Ranger i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 16 oed:

- Triniaeth acne weithredol

a'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

- Gwaredu gwallt
- Adfywio'r croen
- Triniaeth fasgwlaidd
- Gwaredu acne rhosynnaidd
- Gwaredu pigment.

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi'i gofrestru i ddefnyddio laser Titan 3 Q-Switched ND:YAG i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 16 oed:

- Gwaredu tatŵs
- Gwaredu colur dros dro

a'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

- Triniaeth garbon i'r wyneb

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Roedd gan y gwasanaeth brosesau priodol ar waith i sicrhau bod ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn modd urddasol a phreifat.

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaethau.

Roedd angen diweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Yn anffodus, nid oedd y gwasanaeth yn gallu darparu unrhyw holiaduron wedi'u cwblhau i AGIC i'w cynnwys yn yr adroddiad.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion lenwi ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol a oedd yn cael ei wirio ar gyfer newidiadau ymhob apwyntiad dilynol er mwyn sicrhau bod triniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir yn cael ei deall yn glir gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r ffurflen fel bod y wybodaeth wedi'i chofnodi mewn ffordd fwy trefnus.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y drws i'r ystafell driniaeth yn gallu cael ei gloi o'r tu mewn, a gwnaeth y staff gadarnhau eu bod yn gwneud hyn yn ystod triniaeth. Darperir tywelion urddas i gleifion yn ôl y galw ac mae cleifion yn cael eu gadael ar eu pen eu hunain i ddadwisgo os oes angen. Roedd cleifion yn cael eu hysbysu yn ystod y broses ymgynghori i wisgo dillad priodol ar gyfer triniaeth, er mwyn helpu i ddiogelu eu hurddas.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn ystafell breifat, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol yn gallu cael ei thrafod heb i neb glywed.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Gwnaethom ganfod bod digon o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Roedd hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb â'r rheolwr cofrestredig cyn i driniaeth ddechrau. Dywedwyd wrthym fod y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, y buddion a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Roedd manylion risgiau a buddion triniaethau hefyd yn cael eu cynnwys ar ffurflen gydsyniad cleifion, yr oedd yn ofynnol iddynt ei llofnodi ymhob sesiwn driniaeth. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth a gofnodir yn cael ei deall yn glir gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r ffurflen fel bod y wybodaeth yn cael ei chofnodi mewn ffordd fwy trefnus. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i driniaeth ddechrau er mwyn helpu i benderfynu a oedd yn addas ar gyfer triniaeth a thebygolrwydd unrhyw adweithiau negyddol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd canllaw i gleifion ar gael a oedd yn darparu gwybodaeth am y gwasanaeth. Canfuom fod angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Roedd angen diweddariadau i gynnwys manylion ychwanegol o ran gweithdrefn gwyno'r gwasanaeth a'r cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC. Hefyd, mae'n rhaid dileu'r cyfeiriad o fewn y canllaw i gleifion ynghylch AGIC yn awdurdodi ymarferwyr i ddarparu triniaeth.

Roedd datganiad o ddiben ar gael a gwnaethom ganfod bod angen diweddarau hwnnw hefyd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod manylion y gweithredwr laser/golau pwls dwys ychwanegol yn cael eu darparu, gan gynnwys ei gymwysterau a phrofiad perthnasol. Dylid diweddarau'r strwythur sefydliadol hefyd i gynnwys y gweithredwr laser/golau pwls dwys ychwanegol. Mae'n rhaid cynnwys manylion ychwanegol o ran gweithdrefn gwyno'r gwasanaeth hefyd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael apwyntiad ymgynghorol cyn dechrau triniaeth, a oedd yn cynnwys asesiad math o groen a phrawf croen er mwyn pennu addasrwydd ar gyfer triniaeth. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a nodwyd nad oedd canlyniad y prawf croen yn cael ei gofnodi'n gyson. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu diweddarau i gofnodi canlyniad unrhyw asesiadau cyn cychwyn triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn cofnodi canlyniadau'r holl brofion ac asesiadau yn llawn cyn cychwyn triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd mynediad i'r clinig drwy ramp i'r drws ffrynt gyda'r ardal driniaeth i gleifion wedi'i lleoli ar un llawr, ac felly'n darparu mynediad i unrhyw un â phroblem symudedd.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu darparu adborth ar y gwasanaethau a ddarperir drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol a thrwy holiaduron i gleifion. Dywedwyd wrthym mai prin iawn oedd yr holiaduron a gwblhawyd, ac roedd y rhan fwyaf o adborth yn dod drwy gyfryngau cymdeithasol. Gwnaethom awgrymu y gallai'r rheolwr cofrestredig wneud yr holiaduron yn fwy hygyrch i gleifion, gan ganiatáu iddynt ddarparu adborth yn haws. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Canfuom fod rhai trefniadau ar waith i amddiffyn cleifion, staff a'r rheini sy'n ymweld â'r adeilad.

Canfuom fod angen gwelliannau i rai polisiâu a gweithdrefnau.

Roedd angen gwelliannau i rai trefniadau diogelwch tân, yn arbennig y gwaith o gynnal a chadw diffoddwyr tân.

Roedd angen gwelliannau sylweddol i'r trefniadau ar gyfer cefnogaeth ymgynghorydd diogelu rhag laserau, gan gynnwys adolygiad o'r rheolau lleol ac asesiadau risg. Roedd angen i'r rheolwr cofrestredig hefyd gadarnhau gofynion gwasanaethu'r peiriant golau pwls dwys.

Roedd angen i'r staff dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion a phlant.

Roedd angen rhoi rhaglen gwella ansawdd ar waith.

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis, a'r bobl sy'n ymweld.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer yr adeilad. Gwelsom dystiolaeth bod Profion Dyfeisiau Cludadwy yn gyfredol, i helpu i sicrhau bod offer trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio.

Darparwyd ardystiad i ddangos bod y gwiriadau gwifrau trydanol bob pum mlynedd ar gyfer yr adeilad yn gyfredol a rhoddwyd gwasanaeth blynyddol i'r boeler nwy.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Gwnaethom archwilio'r diffoddwyr tân yn ystod yr arolygiad, ac nid oedd modd i ni ddod o hyd i ddyddiadau yn cadarnhau pryd y cafodd yr offer ei osod na'i wasanaethu.

Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig, a wnaeth gadarnhau iddynt gael eu gosod ym mis Gorffennaf 2016, ond nid oedd yn ymwybodol o'r gofyniad i'w cynnal a'u cadw bob blwyddyn.

O ganlyniad, nid oedd y rheolwr cofrestredig yn gallu cadarnhau bod y diffoddwyr tân yn ddiogel ac yn addas i'w defnyddio pe bai angen. Aethpwyd i'r afael â hyn o dan ein proses hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Roedd asesiadau risg tân ar waith a gafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dywedwyd wrthym er nad oes unrhyw hyfforddiant tân ffurfiol wedi'i gynnal, bod polisi'r gwasanaeth yn amlinellu'r hyn sydd angen i'r staff ei wneud pe bai tân. Dywedwyd wrthym fod un ymarfer tân wedi'i gynnal ond ni chafodd ei gofnodi. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant tân priodol yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl staff, a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Gwelsom fod arwyddion a oedd yn dangos yr allanfeydd tân.

Ni welsom fod gan y gwasanaeth flwch cymorth cyntaf, ond dywedwyd wrthym fod gan y staff fynediad i rai rhwymynnau. Gwnaethom argymhell y dylid cael cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ¹ ynglŷn â'r angen am staff cymorth cyntaf a'r hyfforddiant priodol fel y bo'n briodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant tân yn cael ei gwblhau gan yr holl staff a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Gwelsom fod yr adeilad yn weledol lân ac yn daclus.

¹ <http://www.hse.gov.uk/firstaid/>

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau yn y gwasanaeth yn fanwl, gan gynnwys tasgau dyddiol ac wythnosol, a threfniadau glanhau rhwng apwyntiadau cleifion. Fodd bynnag, nid oedd modd i ni weld bod hyn wedi'i gofnodi o fewn polisi rheoli heintiau ac nid oedd yr amserlenni glanhau yn cael eu cynnal gan y gwasanaeth. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i roi'r rhain ar waith.

Canfuom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer casglu gwastraff clinigol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli heintiau yn cael ei roi ar waith sy'n manylu ar y trefniadau rheoli heintiau ar gyfer y gwasanaeth a'r angen i gynnal amserlenni glanhau.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion (ar gyfer rhai triniaethau) dros 16 mlwydd oed.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisiâu diogelu plant ac oedolion ar waith. Mae angen diweddarau'r polisi i gynnwys y manylion cyswllt ar gyfer y timau diogelu perthnasol yn y cyngor lleol a hefyd i gynnwys mwy o fanylion am broses diogelu'r gwasanaeth ei hun. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Nid oedd modd i ni weld tystysgrifau i ddangos bod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser/golau pwls dwys ychwanegol wedi cwblhau hyfforddiant diogelu. Cafodd y rheolwr cofrestredig ei atgoffa y dylid ymgymryd â hyfforddiant diogelu oedolion a phlant. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelu oedolion a phlant yn cael ei gwblhau a bod y polisiâu diogelu yn cael eu diweddarau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Canfuom fod contract y gwasanaeth gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi dod i ben ddiwedd mis Gorffennaf 2017. Gwnaethom ganfod hefyd bod rheolau lleol y gwasanaeth yn manylu ar weithredu'r peiriannau yn ddiogel, heb eu hadolygu ers iddynt gael eu creu ym mis Gorffennaf 2016, ac nid oedd

asesiad risg o'r peryglon wedi'i gynnal chwaith Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig ar ddiwrnod yr arolygiad, a ddywedodd wrthym nad oeddent yn ymwybodol o'r angen i adnewyddu'r contract gyda'r ymgynghorydd diogelu rhag laserau gan fod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae hwn yn amod cofrestru gydag AGIC, a restrir yn benodol o fewn y dystysgrif cofrestru. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Nid oedd modd i ni weld dystysgrifau i ddangos bod y peiriannau laser neu olau pwls dwys wedi'u gwasanaethu neu eu calibreiddio ers iddynt gael eu prynu. Gwnaethom drafod hyn â'r rheolwr cofrestredig a ddywedodd wrthym nad oedd angen i'r peiriannau gael eu gwasanaethu neu eu calibreiddio tan iddynt gyrraedd y nifer penodol o saethiadau, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oeddent wedi cyrraedd hynny eto. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym i'r gwneuthurwr ei hysbysu o hynny. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael a chadw cadarnhad bod gofynion gwasanaethu a chalibreiddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys wedi cael eu cwblhau yn briodol.

Gwelsom fod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys ond nid oeddent wedi'u llofnodi gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys a bod y rhain wedi'u llunio a'u llofnodi gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael a chadw cadarnhad o ofynion gwasanaethu a chalibreiddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys a chymryd camau gweithredu pan fod angen.

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth ar waith ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys a bod y rhain wedi'u llunio a'u llofnodi gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedwyd wrthym fod y gweithredwyr laser/golau pwls dwys wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ² a hyfforddiant priodol ar ddefnyddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys. Fodd bynnag, nid oeddem yn gallu gweld cadarnhad o hyn ar gyfer un gweithredwr. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon copïau o dystysgrifau sydd ar goll i AGIC a chafodd ei atgoffa i gadw copïau o dystysgrifau ar gyfer yr holl hyfforddiant a gwblheir.

Gwelsom fod offer amddiffyn llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau laser a golau pwls dwys. Gwelsom fod hollt bach mewn un pâr o sbectol. Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn a wnaeth gael gwared arnynt ar unwaith. Roedd gweddill yr offer amddiffyn llygaid yn edrych mewn cyflwr da.

Roedd arwydd a golau ar y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant laser/golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser. Mae'r allweddi cychwyn ar gyfer y ddau beiriant yn cael eu cadw'n ddiogel pan nad ydynt yn cael eu defnyddio, gan atal mynediad anawdurdodedig.

Gwnaethom adolygu'r dogfennau sy'n ymwneud â'r asesiad risg amgylcheddol. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, oherwydd nad oedd unrhyw gontract ar waith gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau, nid oedd yr asesiad risg amgylcheddol wedi'i ddiweddarau ers mis Gorffennaf 2016. Aethpwyd i'r afael â hyn drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon copïau o dystysgrifau hyfforddiant perthnasol i AGIC.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Nid oedd y gwasanaeth yn cynnal unrhyw weithgareddau gwella ansawdd er mwyn helpu i nodi meysydd i wella'r gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r rheolwr

² Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

cofrestredig gyflwyno rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd a chadw cofnod o'r rhain er mwyn dangos y gwaith a wneir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir

Rheoli cofnodion

Gwnaethom arsylwi bod darpariaeth dda ar gyfer diogelu cofnodion a data cleifion, a oedd yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Canfuom fod angen gwelliannau o ran rheoli'r gwasanaeth yn gyffredinol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau.

Mae angen diweddaru'r broses gwynion.

Mae angen gweithredu proses arfarnu staff a chael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl aelodau o staff.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n rheoli'r Blackwood and Caerphilly Laser Clinic at Studio 28 ac yn berchen arno. Mae'r rheolwr cofrestredig yn cael ei gefnogi gan weithredwr laser/golau pwls dwys nawr ac yn y man.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod y cyfathrebu â'r gweithredwr laser/golau pwls dwys yn digwydd yn aml ac yn anffurfiol. Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisiau ar waith ac roedd angen diweddaru rhai ohonynt, neu eu creu, fel yr amlinellwyd eisoes yn yr adroddiad.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd cyfredol ar waith.

O ystyried y meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y gwasanaeth ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a'r safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y gwelir tystiolaeth o welliant amlwg yn y maes hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith yr oedd angen ei ddiweddarau i gynnwys y cyfeiriad e-bost cywir ar gyfer AGIC. Er nad oedd y gwasanaeth wedi derbyn unrhyw gwynion hyd yn hyn, disgrifiwyd proses briodol ar gyfer cofnodi a rheoli unrhyw gwynion a dderbynnir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r polisi cwynion.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Er nad yw'r rheolwr cofrestredig yn cynnal arfarniadau ar hyn o bryd, dywedwyd wrthym fod trafodaethau cyson yn cael eu cynnal rhwng y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser/golau pwls dwys ynglŷn â datblygiad personol. Dylai'r rheolwr cofrestredig ffurfioli'r broses hon a chyflwyno system arfarnu ffurfiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nid oeddem yn gallu gweld gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol ar gyfer holl ddefnyddwyr y peiriannau laser/golau pwls dwys. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer holl ddefnyddwyr y peiriannau laser/golau pwls dwys.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr sicrhau bod gan yr holl weithredwyr laser/golau pwls dwys wiriadau priodol ar waith gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Diwallu'r [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod hollt bach mewn un pâr o sbectol amddiffynnol.	Efallai nad yw'r cleifion neu weithredwyr laser/golau pwls dwys yn cael eu hamddiffyn yn llawn rhag y defnydd o beiriannau laser/golau pwls dwys.	Tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn ar unwaith.	Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gael gwared ar y sbectolau amddiffyn ar unwaith.

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Blackwood and Caerphilly Laser Clinic at Studio 28

Dyddiad yr arolygiad: 17 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau'r canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a darparu copïau i AGIC.	18. Cyfathrebu'n effeithiol Rheoliad 7 (1) (d) (f) Rheoliad 6 (5) (6) (10)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cofnodion cleifion yn nodi canlyniadau'r holl brofion ac asesiadau cyn dechrau ar driniaeth.	8. Cynllunio a darparu gofal Rheoliad 15 (1) (a) (b)			

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelwch tân yn cael ei gynnal ar gyfer yr holl staff, a bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd.	22. Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau cynllunio ar gyfer argyfwng Rheoliad 26 (4) (c) (d)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli heintiau yn cael ei roi ar waith sy'n manylu ar y trefniadau rheoli heintiau ar gyfer y gwasanaeth a'r angen i gynnal amserlenni glanhau.	13. Atal a rheoli heintiau a dadheintio Rheoliad 9 (1) (n)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod hyfforddiant diogelu plant ac oedolion yn cael ei gwblhau a bod y polisïau diogelu yn cael eu diweddarau.	Rheoliad 16 (1) (a) Rheoliad 20 (2) (a)			

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	11. Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael a chadw cadarnhad o ofynion gwasanaethu a chalibreiddio'r peiriannau laser a golau pwls dwys a chymryd camau gweithredu pan fod angen. Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod protocolau triniaeth ar gyfer y peiriannau laser a golau pwls dwys yn cael eu llunio a'u llofnodi gan weithiwr meddygol proffesiynol priodol.	16. Dyfeisiau ac offer meddygol a systemau diagnostig Rheoliad 15 (2) Rheoliad 45 (1)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig anfon copïau o dystysgrifau hyfforddiant perthnasol i AGIC.	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol Rheoliad 20 (1) (a) (2) (a)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno rhaglen o weithgareddau gwella ansawdd a datblygu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i unrhyw welliannau a nodir	6. Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd			

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	21. Ymchwil, datblygiad a dyfeisgarwch Rheoliad 19 (1) (a) (b)			
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r weithdrefn gwyno.	23 Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau			
Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gyflwyno proses arfarnu ar gyfer staff.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol Rheoliad 20 (2) (a)			
Mae'n rhaid i'r rheolwr sicrhau bod gan yr holl weithredwyr laser a golau pwls dwys wiriad priodol ar waith gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	24. Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu Rheoliad 21 (2) Atodlen 2			

Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	(2) (b)			

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad: